

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|-----------------------------|--|
| ADRODDIAD I'R: | Cabinet |
| DYDDIAD: | 5 Medi 2023 |
| LLEOLIAD: | Hybrid |
| TEITL: | Argymhelliad gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu mewn perthynas ag 'Y Dyfodol', Cellan |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Rhoi adborth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023 |

CEFNDIR:

Bu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ystyried yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 - Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 (2022-2023) yn ei gyfarfod ar 6^{ed} Gorffennaf 2023.

Rhodddwyd trosolwg o'r canlynol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad:

- Cefndir
- Sefyllfa ar hyn o bryd
- Pryderon
- Camau i fynd i'r afael â bylchau
- Cynnal/gwella darpariaeth (poblogaeth - genedigaethau byw, lleoedd gofal plant, tlodi plant, Allgymorth Dechrau'n Deg)
- Y Gymraeg (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)

Rhannodd swyddogion fideo byr o'r gwaith a wnaed mewn gwahanol sefydliadau gofal plant ledled y sir yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am grantiau gan y darparwyr.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol.

Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod 'Y Dyfodol', a arferai fod yn feithrinfa breifat yng Nghellan, yn wag. Dywedwyd nad oedd gan yr awdurdod lleol ddim arian i sicrhau'r ddarpariaeth a bod y swm bach y pen o raglen Dechrau'n Deg ar gyfer ariannu darpariaeth gofal plant. Yn ogystal, mae telerau Dechrau'n Deg yn benodol ac mae dyraniad cyllid yn dibynnu ar gôd post cyfeiriad y plentyn ac a yw o fewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Eglurodd swyddogion na fyddai ystyried prynu'r cyfleuster yng Nghellan yn bodloni'r angen na'r galw am ddarpariaeth Dechrau'n Deg, gan ei fod y tu allan i'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a nodwyd.

Yn dilyn cynnig gan Aelodau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell:

bod y Cabinet/Grŵp Arweiniol yn archwilio opsiynau i lesio/prynu 'Y Dyfodol' yng Nghellan, o ystyried yr angen am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal.

**Y Cynghorydd Endaf Edwards
Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**